

CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 1 Tachwedd 2018 yn Canolfan Edward Richard. *Minutes of meeting held Thursday, 1 November 2018 at the Edward Richard Centre.*

Yn bresennol / Present:, Rhodri Davies, Thomas Jones, Tomos Jones, Sarah Jones, David M Jones.

Ymddiheurio / Apologies: Wyn Evans a Siarl Owen.

Derbyniwyd cofnodion 4 Hydref 2018 fel rhai cywir. *The minutes of meeting held 4th October 2018 were received as a correct record.*

Materion yn codi/Matters arising.

1. **Gwefan/Website** – cyflwynwyd y Wefan newydd gan Chris Jones, Ystrad Meurig – derbyniwyd y Wefan a chroeso a cytunwyd unwaith y byddai rhai manion wedi ei addasu y gallau fynd yn fyw. Diolchwyd i Chris am ei waith. Cytunwyd i dalu £400 i Chris am ei waith yn unol a'r anfondeb. *Chris Jones, Ystrad Meurig was present to present the new Website, the Website was accepted and once a few tweaks have been made it can go live. Chris was thanked for his work. It was agreed to pay £400 to him for his work as per his invoice.*
2. **Japanese Knott Weed** – Cadarnhawyd bod y gwaith o ddifa'r Knottweed yn parhau a bod Ieuan Davies, Cynhawdre wedi torri gwair y Parc. Derbyniwyd anfondeb am £60 oddi wrth Ieuan, cytunwyd i dalu. Datganwyd diddordeb yn y mater gan y Cynghorydd D. M. Jones. *It was confirmed that the knotweed had been treated again this year and that Ieuan Davies, Cynhawdre had cut the grass at the Park. An invoice of £60 was received from Ieuan, it was agreed to pay. Declaration of interest was noted by Councillor D. M. Jones.*
3. **Sedd Wag/Vacant Seat** – yn unol a rheolau'r Cyngor Sir byddwn yn hysbysebu yn gyhoeddus am y sedd wag. In line with the rules of the County Council we will be advertising for the vacant seat.
4. **Sul y Cofio / Remembrance Sunday:** Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 1.00 o'r gloch, 11 Tachwedd yn Swyddffynnon. Arrangements for the Remembrance Sunday Service, 1.00pm, 11 November at Swyddffynnon were confirmed.

Gohebiaeth / Correspondence

1. **Eisteddfod Swyddffynnon:** Ar gais y Clerc cytunwyd i rhodd o £100 at Eisteddfod Swyddffynnon a gynhelir ar 22 Chwefror 2019. Datganwyd diddordeb yn y mater gan Cyng. D. M. Jones, T. Jones a'r Clerc. *At the Clerks request it was agreed to contribute £100 towards Swyddffynnon Eisteddfod, 22 February 2019. Declaration of interest was shown by Councillors D. M. Jones, T. Jones and the Clerk.*
2. **Cinio Blynnyddol / Annual Dinner** – cytunwyd i ofyn i Bont, Bronant a Clwb Rygbi Tregaron – Clerc i wneud y trefniadau. *It was agreed to ask Bont, Bronant and Tregaron Rugby Club – Clerk to make arrangements.*
3. **Golau Swyddffynnon Lights** – roedd y Clerc wedi derbyn sylw nad oedd y golau ar sgwar Swyddffynnon ger y gofologlofn yn gweithio, roedd hi wedi tynnu sylw'r Cyngor Sir at hyn. *Clerk had received notification that the light at the Square Swyddffynnon was not working. Clerk had informed the County Council of this.*
4. **CSC Cais Cynllunio: A180747** i dynnu'r amod gweithiwr amaethyddol (condition 5) – aneddlle ar gyfer gweithiwr amaethyddol, Broncapel, Swyddffynnon – yn unol a penderfyniad gwreiddiol y Cyngor Cymuned yn 2008 cytunwyd i wrthwynebu'r cais a hynny ar sail y 3 penderfyniad a ganlyn, yn gyntaf; i barhau i amaethu yng nghefn gwlad Ceredigion, yn ail i sicrhau bod dyfodol i'r cenedlaethau a ganlyn i ddilyn yn llwybrau traed ei rhieni a'i teidiau ac yn 3ydd i sicrhau ei bod yn medru gwneud hynny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae hyn hefyd yn cefnogi agenda'r Llwydroaeth i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Datganwyd diddordeb yn y mater gan y Cyng. D.M. Jones a T. Jones.

Roedd y Cyngor Cymuned hefyd am dynnu sylw'r Cyngor Sir i'r ffaith bod yr hysbysiad parthed y cais wedi diflannu o fewn diwrnod i ddau o'i osod. Yn sicr nid yw hyn yn rhoi'r cyfle i etholwyr ymateb i'r cais efo'i barn.

CCC Planning Application A180747 to remove variation of contract (Condition 5) removal of agricultural condition on an erection of a dwelling at Broncapel, Swyddffynnon – in line with the decision made in 2008 it was agreed to object to the application on the basis of 3 points: firstly the continuation of farming in rural wales, secondly to ensure that the next generation were able to continue in the footsteps of their parents and grandparents and thirdly to ensure that they were able to do so through the medium of the Welsh language. This supports the Government's current initiative to ensure that Wales reaches the target of a million Welsh speakers by 2050.

The Community Council was also to draw the attention of the County Council that the notification with regards to this application placed near to Broncapel disappeared within a day or two of being placed. Surely this does not give the opportunity for electors to respond with their views. Declaration of interest was shown by Councillors D. M. Jones, T. Jones

5. **CCC / CSC = Praesept** - cafwyd taliad o £650;28 ar 26 Hydref 2018. A payment of £650.28 was received on 26 October 2018.
6. **Bandllydan / Broadband** – derbyniwyd uwchraddiad gan Elin Jones ar y sefyllfa bod Ceredigion wedi ei osod o fewn “lot rhif 3” efo Gorllewin Cymru a'r cymoedd. Mae trafodaethau yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a BT/Openreach. Bydd Elin yn cyfarfod a'r Gweinidog eto yn fuan i drafod ymhellach. *An update was received from Elin Jones on the Ceredigion situation, Ceredigion have been placed in “lot no. 3” with West Wales and the Valleys. Discussion are continuing between Welsh Government and BT/Openreach. Elin will meet with the Minister again shortly to discuss further.*
7. Derbyniwyd llythyr gan Brian Mallows, Y Felin parthed y Llwybr Beicio drwy Tynygraig – roedd sylw wedi ei wneud yn y “Mid Wales Joint Local Transport Plan 2015” at ddatblygu hyn ymhellach. Gan nad oedd unrhyw wybodaeth ar y mater hwn wedi dod i sylw'r Cyngor Cymuned trosglwyddwyd yr ebost at Cyngorydd Ifan Lloyd Davies. *A letter was received from Brian Mallows, Y Felin re: the Cycleway through Tynygraig – an extract was quoted from the Mid Wales Joint Local Transport Plan 2015 with regards to developing the track further. As no information had been received by the Community Council this was passed on via email to Councillor Ifan Lloyd Davies.*
8. Coeden Nadolig Tynygraig Christmas Tree – bydd golau'r goeden yn cael ei throi ymlaen ar brynhawn Sul, 2ail Rhagfyr 2018 am 4.00 o'r gloch. Bydd Carolau, Gwin poeth a mins peis i ddilyn yn y Capel. The Christmas tree lights will be turned on, Sunday, 2nd December 2018 at 4.00pm. Carols, Mulled Wine and Mince Pies to follow at the Chapel.